

Cadair Berwyn

Cerdded ar gefn y mynydd ac ar rostiroedd sydd â golygfeydd eang

Pellter: 16km / 10 milltir

Amser: Tua 6 - 7 awr

Parcio a chychwyn: Y maes parcio yn Llandrillo

Cyf. Grid: SJ035372, Map OS Explorer 255

Graddfa: Egniol iawn, rhostir agored a dringo hir (750m / 2100tr. o ddringo)

Cyfleusterau: Toiledau cyhoeddus yn y maes parcio; lluniaeth yn y Dudley Arms, Llandrillo. Ffôn: 01490 440223

Noder; Mae'r daith hon yn fwy o her o lawer na'r lleill, ac arni rannau sy'n anodd eu dilyn ac yn gorslyd iawn. Mae cefn y mynydd yn uchel ac yn agored, felly, mae'n hollol angenrheidiol ichi wisgo'n briodol i fynydda, y gallwch ddefnyddio map a chwmpawd yn gywir, a bod y map Explorer priodol gennyh.

Ridge walking, moorland and panoramic views

Distance: 16km / 10 miles

Time: Allow 6 - 7 hours


Parking and start: Car park in Llandrillo

Grid ref: SJ035372, Explorer Map 255

Grade: Very strenuous, open moorland, long ascents (750m / 2100ft climb)

Facilities: Public toilets in car park; refreshments Dudley Arms, Llandrillo, tel: 01490 440223

NB This route is far more challenging than the others. Some sections are difficult to follow and very boggy and the ridge is high and exposed. It is essential that you are properly equipped for mountain walking, can navigate competently and carry an Explorer map with you.



Y Daith Gerdded

1. O'r maes parcio, cerddwch i'r ffordd. Trowch i'r chwith gan gerdded ar y ffordd yna cymwrch y llwybr ar y llaw dde cyn cyrraedd y Ganolfan Gymunedol. Croeswch y gamfa y tu cefn i'r adeilad a mynd ar hyd y llwybr y tu ôl i'r tai, croesi'r gamfa i'r cae, a mynd yn groes-gornel at y giât. Croesi'r gamfa/giât a throi i'r dde i'r lôn. Ewch drwy giât ac ymlaen gan fynd heibio i dŷ ar y llaw dde. Ymlaen ar y llwybr llydan hwn nes iddo droi'n llwybr suddedig glas, gan ddringo'n araf. Mynd drwy giât arall a dilyn y llwybr llydan yn ymyl y goedwig a'r wal gerrig.

Ar y gyffordd, mynd drwy giât bren gan wro i'r chwith ac i fyny'r bryn ar y llwybr llydan. Cadwch i'r chwith ar y gyffordd nesaf a pharhau i ddringo.

2. Ar ôl gadael y coed, peidiwch â dilyn y prif llwybr llydan i'r chwith, ond ewch yn syth ymlaen drwy'r giât dde. Dilynwch y llwybr glaswellt drwy giât arall gan gadw'r wal gerrig ar eich llaw chwith. Ewch drwy giât i ymuno â'r llwybr llydan sy'n dod i fyny o'r dde ac yna, bron ar unwaith, ewch ymlaen dros gamfa gerrig wrth y mynegbost a'r giât. Dilynwch y llwybr naturiol hwn ymlaen (anwybyddu'r un ar y chwith) gan gadw'r wal gerrig (wedyn y ffens) ar eich llaw



Cadair Berwyn

dde. Sylwch; gall fod yn gorslyd dros ben ac nid yw'r llwybr yn glir yn y rhan hon bob amser. Mae'r llwybr yn symud yn raddol oddi wrth y ffens. Anelwch tuag at goedwig sgwâr o gonifferau yn y pellter, gan gadw'r nant ar y dde islaw.

3. Ar ôl tua 1.5km, gan gyrraedd y rhostir, ewch drwy'r giât sydd mewn ffens o'ch blaen. Dal i ddilyn y llwybr sydd o'ch blaen (sy'n fwy amlwg erbyn hyn), a mynd heibio i'r coed conifferau ar eich llaw chwith. Dilynwch y llwybr hwn i fyny'r bryn. Pan fydd y llwybr yn fforchio, tueddchwch i'r dde gan anelu i lawr tua'r nant a dal ar y llwybr hwn gan ddringo'n raddol tua chrib y mynydd.

4. Ar y gefnfen, trowch i'r dde a cherddwch ar y byrddau pren gan gadw'r ffens ar eich llaw chwith. Ymlaen ar hyd y grib am ryw 600m gan ddringo'n raddol. Yna croeswch y gamfa ysgol a dilyn y llwybr gan dueddu i'r dde ar hyd y gefnfen. Ymlaen ar y llwybr hwn gan esgyn yn araf i'r piler triongli ar gopa Cadair Berwyn. Ewch yn eich blaen ar hyd y gefnfen, heibio'r lloches cerddwyr ac i'r creigiau ar y man uchaf.

5. Dewch yn ôl i'r piler triongli ac yna trowch i'r chwith i groesi camfa ysgol. Dilynwch y llwybr amlwg sy o'ch blaen a cherddwch ar i lawr. Ar waelod y bryn, croeswch y gamfa ysgol ac ewch ymlaen ar y llwybr clir. Wrth yr arwydd, dilynwch y llwybr i'r dde gan anelu at furddun. Wrth y murddun, croeswch y gamfa ysgol a dilyn y llwybr dros y nant a drwy'r giât. Ar fforch y llwybr, ewch i'r dde. Ewch ymlaen am tua 200m. i groesi camfa ysgol. Dilynwch y llwybr gan dueddu ychydig i'r chwith a chadw'n glos at y ffens ar y chwith.

6. Croeswch y gamfa ysgol a'r nant (Noder: gall hon fod yn llawn llif) a dilyn y llwybr i'r chwith gan ymuno â llwybr lletach yn fuan. Gall fod yn wlyb ac yn gorsiog yma! Dilynwch y llwybr i'r wal gerrig a'r gamfa. Croeswch y gamfa a dilyn y llwybr llydan i lawr y bryn gan anwybyddu'r giât sydd o'ch blaen. Dal i gerdded i lawr y bryn pan fydd y llwybr yn troi'n ffordd a dilyn hon yn ôl i Landrillo. Yng nghanol y pentref, croeswch y ffordd fawr ac i'r maes parcio.

The Walk

1. From the car park walk to the road. Turn left along the road then take the path on the right before the Community Centre. Cross the stile at the back of the building and walk along the path behind houses. Cross a stile into a field and walk diagonally across to the gate. Cross stile/gate and turn right onto a lane. Go through a gate and continue ahead passing a house on the right. Continue on this track as it becomes a sunken grassy path, gradually climbing. Go

through another gate and follow the track beside the forest and a stone wall. At a junction go through a wooden gate, bearing left up the hill on the track. Keep to the left at the next junction and continue climbing.

2. When you leave the wood do not follow the main track round to the left but continue ahead through the right hand gate. Follow the grassy path going through another gate and keeping the stonewall on the left. Go through a gate to join a track coming up from the right and, almost immediately, continue ahead over a stone stile beside a fingerpost and gate. Follow the natural path ahead (ignore track left) keeping the stonewall (later a fence) on the right. **NB Can be very boggy and the path is not always clear in this section.** The path gradually moves away from the fence. Keep heading towards the small square block of conifer trees in the distance, keeping the stream on the right below.

3. About 1.5km after entering the moorland go through a gate in the fence ahead and continue on the path ahead, which is much clearer again, passing the conifer trees on the left. Follow the path uphill. At a path fork bear right heading down towards the stream then continue on this path, climbing steadily up to the ridge.

4. At the ridge turn right along the boardwalk, walking with the fence on your left. Continue along the ridge for approximately 600m, climbing steadily. Then cross a ladder stile and follow the path bearing right along the ridge. Continue on this path ascending gradually to the trig point on the top of Cadair Berwyn. Continue along the ridge, past the shelter, to the crags at the highest point.

5. Return to the trig point and turn left to cross the ladder stile. Then follow the clear path ahead downhill. At the bottom of the hill cross a ladder stile and continue ahead on the clear path. At the waymarker follow the path right heading for a ruined building. Cross a ladder stile beside the building and follow the path across a stream and through a gateway. Bear right at path fork and continue for about 200m to cross a ladder stile. Follow the path ahead bearing slightly left and keeping near the fence on the left.

6. Cross a ladder stile and stream (**NB Stream can be very full!**) then follow the path to the left soon joining a wider path. Follow this path to the stonewall and stile. Cross stile and follow the track left downhill, ignoring the gate ahead. Continue downhill where the track becomes a road and follow this back to Landrillo. Cross the main road in the village centre to return to the car park.

Mynyddoedd y Berwyn

Mynyddoedd y Berwyn yw un o'r ardaloedd helaethaf o rostiroedd mynydd yng Nghymru. Ar y tir mawnog, asidaidd, fe lewyrcha'r grug, llus, a chreiglys y mynydd. Datblygodd gorgors ar y rhannau gwlypaf ac yma fe welir blodau plu'r gweunydd, mwsoglau'r gors a phlanhigion 'bwyta pryfed' fel gwlythlys a thafod y gors. Mae'r mynydd gwyllt yn gynefin i nifer o adar ysglyfaethus am fod yma gyfle iddynt fagu cywion heb aflonyddu arnynt, ac am fod y mamaliaid bach a'r adar sy'n ysglyfaeth iddynt yn niferus yn y grug a'r glaswellt.

O'r gefnfen, gallwch weld sawl peiran a dyffryn siâp 'U' yn rhedeg i gyfeiriad y de-ddwyrain. Dyma lle'r esgorwyd ar y rhewlifoedd yn ystod oesoedd yr ia. Llenwodd y rhewlifoedd y dyffrynnoedd gan grafu'r creigiau ar hyd eu gwaelodion a'u hochrau, eu malu a'u cludo i lawr y dyffrynnoedd. O ganlyniad i hyn fe grëwyd siâp clasurol y dirwedd rewlifol.

Berwyn Mountains

The Berwyns are one of the largest areas of upland heath in Wales. Heather, bilberry and crowberry flourish on the peaty, acidic soils. Blanket bog has developed in the wetter areas where white flowered cotton grass, bog mosses and 'insect-eating' plants like sundew and butterwort thrive. Many birds of prey thrive in the wild mountains as they have a good chance of breeding without disturbance and their prey of small mammals and birds is plentiful.

From the ridge you can see cwms and U-shaped valleys running southeast. These are where glaciers were born during ice ages. Glaciers filled the valleys scraping rock from the bottom and sides, grinding it up and transporting it down the valleys, resulting in this classic glacial landscape.

